Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd  CF99 1SN

SeneddCyllid@senedd.cymru

20 Mai 2024

Annwyl Mr Griffiths

**Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Mai 2024 yn ymgynghori ar y tâl cydnabyddiaeth a'r telerau penodi arfaethedig ar gyfer Cadeirydd newydd Swyddfa Archwilio Cymru, a phenodiad aelod anweithredol ychwanegol.

Rwy'n nodi bod y Pwyllgor wedi cynnal ymarfer cymharu llawn yn ddiweddar wrth bennu trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer y Cadeirydd blaenorol ym mis Gorffennaf, ac wedi cynnig cynnal yr un gyfradd, sef £25,000 y flwyddyn, ar sail ymrwymiad a awgrymir o 4 diwrnod y mis. Ar y sail honno, rwy'n fodlon â'r tâl a gynigir.

Nid yw cynllun tâl cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, at ddibenion cymharu, mae gan y cynllun bum cyfradd ddyddiol ar gyfer tâl cydnabyddiaeth (bandiau), sy'n helpu i wahaniaethu taliadau cydnabyddiaeth ar sail asesiad o ba mor fawr, cymhleth ac agored i risg yw’r sefydliad. Mae cyfraddau dyddiol Cadeirydd yn amrywio o £114 i £478. I roi hyn yn ei gyd-destun, tua £520 y dydd fyddai cyflog y Cadeirydd pe bai'n £25,000.

Nid oes gennyf unrhyw farn bellach i'w rhannu ynglŷn â'r telerau ac amodau, ond rwyf yn nodi bod y Pwyllgor wedi penderfynu cynnal y darpariaethau hysbysiad a therfynu presennol.

Cofion cynnes,

**Dom Houlihan**
**Cyfarwyddwr, Pobl a Lleoedd**

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Parc Cathays, Caerdydd.  CF10 3NQ
Cathays Park, Cardiff.  CF10 3NQ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre
0300 0604400